

# Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Swm Penodedig o Rent Perthnasol) (Cymru) (Diwygio) 2021

Ionawr 2021

1. Cymerodd y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) dystiolaeth gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd (y Gweinidog) ar 8 Ionawr 2021.
2. Cafodd yr Offeryn Statudol hwn ei ystyried gan y Pwyllgor Cyllid o dan Reol Sefydlog 27.8A.

## Cefndir a Diben

3. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Swm Penodedig o Rent Perthnasol) (Cymru) 2018 ("Rheoliadau 2018") er mwyn diwygio swm y rhent perthnasol a bennir yn rheoliad 2 o'r Rheoliadau hynny.
4. Mae Rheoliadau 2018 yn pennu swm y rhent perthnasol o dan baragraff 36(1)(b) o Atodlen 6 i Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 ("Deddf 2017"), at ddibenion diffinio "y swm penodedig" ym mharagraffau 34 a 35 o'r Atodlen honno.
5. Mae Rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio swm y rhent perthnasol a bennir yn rheoliad 2 o Reoliadau 2018 o £9,000 i £13,500 o'r dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym. Ar gyfer trafodiadau sy'n cael effaith ar ddyddiad cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, bydd y swm blaenorol o £9,000 yn parhau i fod yn gymwys.

## Gweithdrefn

6. Cadarnhaol drafft
7. Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.



## Rhinweddau: craffu

**8.** Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Amcanion polisi

**9.** Diben y Rheoliadau hyn yw diwygio swm y 'rhent perthnasol' a ddefnyddir i sbarduno'r rheol i wrthweithio osgoi trethi ym mharagraff 34 o Atodlen 6 i Ddeddf 2017. Mae paragraff 4.2 o femorandwm esboniadol Llywodraeth Cymru yn egluro bod angen i'r swm a bennir fel 'rhent perthnasol' daro cydbwysedd rhwng sicrhau bod mesur effeithiol ar waith i wrthweithio osgoi trethi (i atal trethdalwyr rhag gallu elwa o ddau drothwy cyfradd sero) a sicrhau nad yw'r rheol yn creu baich treth annheg i'r rheini sy'n talu dim ond ychydig bach o rent blynyddol a phremiwm.

**10.** Mae Llywodraeth Cymru yn egluro mai ei bwriad y tu ôl i'r Rheoliadau hyn yw darparu rheol i wrthweithio osgoi trethi sy'n deg ac yn gymwys i'r rheini sy'n talu symiau sylweddol o rent a chydabyddiaeth ar wahân i rent, ond i beidio â bod yn gymwys i'r rhai sy'n talu dim ond swm bach o rent.

**11.** Gwnaed Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) 2020 ar 21 Rhagfyr 2020 gan ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' (adran 25(2) o Ddeddf 2017) a chynyddwyd y bandiau treth cyfradd sero ar gyfer cydnabyddiaeth sy'n cynnwys rhent mewn perthynas ag eiddo amhreswyl a chydabyddiaeth drethadwy ar wahân i rent. Yn y ddau achos cynyddwyd y band cyfradd sero o £150,000 i £225,000. Mae memorandwm esboniadol Llywodraeth Cymru yn esbonio bod y codiad yn y bandiau cyfradd sero yn peri bod angen codiad yn y swm penodedig o rent perthnasol er mwyn cynnal yr un berthynas rhwng maint y band cyfradd sero a'r swm rhent perthnasol. Mae'r rheoliadau hyn yn diwygio'r band cyfradd sero i £13,500, sef cynnydd o 50 y cant, yr un cynnydd canrannol â'r bandiau cyfradd sero.

## Ymateb y Llywodraeth

**12.** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r adroddiad. Ni roddwyd ymateb.

## Safbwynt y Pwyllgor

**13.** Nododd y Pwyllgor y Rheoliadau.